Hawdd ei Ddeall

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Powys Teaching Health Board

# Gwella Gyda’n Gilydd

## Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi’n feddwl am ein Gwasanaethau Iechyd ym Mhowys

**Mehefin 2025**



# Am y ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o:

**Gwella gyda'n Gilydd: Ceisio eich Barn ar Wasanaethau Cymunedol Iechyd Corfforol a Meddyliol Oedolion ym Mhowys**

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:




**Gwefan:** Gwella Gyda'n Gilydd - Ceisio eich Barn ar Wasanaethau Cymunedol Iechyd Corfforol a Meddyliol Oedolion ym Mhowys | Dweud eich dweud Powys



**Ebost:** powys.engagement@wales.nhs.uk



**Ffôn:** 01874 442917 i adael neges yn gofyn am gopi printiedig o'r ddogfen Hawdd ei Ddeall. Cofiwch gynnwys eich enw a'ch cyfeiriad post, a sillafu unrhyw eiriau anarferol.

# Cynnwys


Helo ........................................ 4

Mwy am gofal iechyd ym Mhowys ........................................ 7

Pam mae angen newid ........................................ 10

Beth mae pobl wedi ei ddweud wrthyn ni ........................................ 14

Beth rydyn ni wedi'i gyflawni ........................................ 18

Ein nodau ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol oedolion .... 19

Syniadau ar gyfer gwasanaethau yn y dyfodol ........................................ 20

Beth fydd yn digwydd nesaf ........................................ 24

Cwestiynau ........................................ 27

Cwestiynau amdanoch chi ........................................ 34

# Helo




Diolch am gymryd rhan yn **Gwella gyda'n Gilydd**.



Mae **Gwella gyda'n Gilydd** yn meddwl siarad a gwrando ar bobl am ein gwasanaethau iechyd.



Rydyn ni eisiau:

- gwella iechyd pobl ym Mhowys,
- a gwella ein gwasanaethau iechyd.



Mae angen i ni feddwl am y dyfodol a'r ffyrdd gorau o redeg gwasanaethau.



I wneud hyn mae angen i ni wybod beth mae pobl yn feddwl.



Fe fyddwn ni'n siarad mwy am y newidiadau mae angen i ni eu gwneud a pham.



Mae pobl wedi dweud wrthyn ni fod angen i ni ddechrau trwy edrych ar ein gwasanaethau iechyd corfforol ac iechyd  meddwl cymunedol.

**Ein gwasanaethau iechyd corfforol ac iechyd meddwl ydy:**



**Gwasanaethau Cleifion Mewnol** – mae hyn yn meddwl gofal mewn ysbytai a wardiau ysbytai iechyd meddwl. A gofal diwedd oes i mewn ac allan o'r ysbyty.



**Gofal Brys** – mae hyn yn cynnwys Unedau Mân Anafiadau, practisau meddygon teulu ac ysbytai.



**Iechyd Meddwl** – mae hyn yn meddwl gwasanaethau iechyd meddwl sy'n cefnogi oedolion.



**Gwasanaethau cymunedol pwysig eraill** – mae hyn yn cynnwys timau Nyrsio Ardal, Gartref yn Gyntaf ac Atal Cwympiadau. Hefyd, rhai gwasanaethau eraill yn bersonol ac ar-lein.




Rydyn ni'n canolbwyntio ar y gwasanaethau yma eleni. Yna fe fyddwn ni'n edrych ar wasanaethau eraill.

# Mwy am gofal iechyd ym Mhowys




Mae **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys** yn gofalu am iechyd pobl ym Mhowys. Mae'n helpu tua 133,000 o bobl.




Mae mwy o bobl hŷn yn byw ym Mhowys nawr nag o'r blaen. Mae bron i 3 o bob 10 o bobl dros 65 oed.



Oherwydd bod Powys yn bennaf yn wledig a phobl yn byw ymhell oddi wrth ei gilydd, mae'n gallu bod yn anodd rhoi gofal iechyd gerllaw.



Mae rhywfaint o ofal yn fwyaf diogel mewn ysbytai y tu allan i Bowys. Mae'r rhain mewn rhannau eraill o Gymru neu Loegr.




Yn 2017, fe wnaeth Powys gynllun o’r enw **Powys Iach a Gofalgar**. Mae’r cynllun yma yn ceisio helpu pobl yn gynharach a dod â gofal yn agosach at eu cartrefi pan mae hynny’n bosibl.



Yn y cynllun yma fe wnaethon ni weld bod angen 3 canolfan fwy ym Mhowys i redeg gwasanaethau cymunedol. Fe fydden nhw’n helpu i leihau’r angen i deithio y tu allan i Bowys.



Y rhain oedd: Y Drenewydd, Llandrindod ac Aberhonddu.




Roedd y cynllun hefyd yn dweud bod angen Hybiau Lles Cymunedol.



Fe fyddai’r rhain yn cael eu darparu yn agos at ble rydych chi’n byw.




Fe fydden nhw'n cefnogi pobl i aros yn iach a dod â phobl at ei gilydd.




Fe wnaethon ni ddogfen arall o'r enw **Model Gofal a Lles Integredig ym Mhowys**.



Fe wnaethon ni ofyn i bobl beth sy'n bwysig iddyn nhw am eu hiechyd.




Mae'n dangos pa wasanaethau iechyd mae pobl eisiau bod ar gael yn eu cymuned a thu allan i Bowys.

# Pam mae angen newid




Mae staff iechyd a gwirfoddolwyr ym Mhowys yn gweithio’n galed i wneud bywyd yn well i bobl.



Ond er mwyn cadw gwasanaethau iechyd yn ddiogel, yn gryf ac o ansawdd da, mae angen newidiadau.



Mae problemau mawr mewn gwasanaethau iechyd corfforol ac iechyd meddwl.



Mae’r bwrdd iechyd wedi siarad am y problemau yma mewn cynllun o’r enw Achos dros Newid.



Mae meddyliau a syniadau pobl am y cynllun yma yn helpu'r Bwrdd Iechyd i ddeall beth sydd bwysicaf iddyn nhw.



Mae mwy o bobl yn byw'n hirach ac yn cael salwch sy'n para am amser hir. Mae hyn yn meddwl bod angen help ar fwy o bobl ym Mhowys.



Mae gan lawer o bobl  fwy nag un broblem iechyd. Mae angen gofal sydd wedi'i gynllunio'n iawn ac yn agos at adref.



Mae pobl hŷn sy'n aros yn rhy hir yn yr ysbyty yn gallu mynd yn wannach.



Mae rhai oedd yn gallu cerdded ar eu pennau eu hunain o'r blaen, angen help i gerddded ar ôl gadael yr ysbyty.




Mae mwy o bobl yn cael trafferth gyda'u hiechyd meddwl. Mae COVID-19, problemau ariannol, a materion eraill wedi gwneud bywyd yn anoddach hefyd.




Dydy ein gwasanaethau iechyd meddwl ddim yn gallu helpu pawb yn ddigon cyflym. Felly mae rhai pobl yn aros yn rhy hir i gael cefnogaeth.



Os nad ydy pethau'n newid, mae'r nifer y bobl sydd angen cymorth iechyd meddwl yn gallu cynyddu llawer yn y 10 mlynedd nesaf.




Mae'n gallu bod yn anodd gwneud yn siŵr bod pobl yn cael yr help maen nhw ei angen. Oherwydd y ffordd mae cymunedau wedi eu gwasgaru.



Does dim digon o staff mewn rhai gwasanaethau a lleoedd hefyd. Mae’n gallu bod yn anodd cael y staff rydyn ni eu hangen.



Mae llawer o’n gwasanaethau iechyd wedi’u gwasgaru. Mae hyn yn gallu ei gwneud hi’n anodd gweithio gyda’i gilydd.



Does dim digon o arian ar gyfer iechyd a gwasanaethau eraill. Mae’n rhaid i ni hefyd wneud penderfyniadau anodd am sut i wario’r arian sydd gennym ni.




Mae llawer o’n hadeiladau yn hen ac maen nhw’n effeithio ar ein gwasanaethau. Mae angen i ni wella rhai ohonyn nhw. Ond does gennym ni ddim digon o arian.

# Beth mae pobl wedi ei ddweud wrthyn ni



Rydyn ni wedi cael llawer o adborth gan bobl a staff am beth sy'n bwysig iddyn nhw.




Mae'r sylwadau yma wedi ein helpu i ddatblygu ychydig o gynlluniau ar gyfer Powys.




Rydyn ni'n gwybod nad ydyn ni'n gallu rhoi'r holl wasanaethau maen nhw eu heisiau i bobl. Ond rydyn ni'n gwrando ac yn ceisio ateb anghenion pobl.




Fe wnaethon ni wrando ar beth roedd pobl wedi ei ddweud yn 2024 ac wedi gwneud newidiadau i rai gwasanaethau.




Mae ein wardiau cleifion mewnol ac Unedau Mân Anafiadau wedi cael eu newid i'w gwella.



Mae'r rhain yn newidiadau tymor byr. Fe fyddwn ni'n parhau i'w monitro.




Rydych chi'n gallu darganfod mwy trwy fynd yma: biap.gig.cymru/dros-dro




Am fwy o wybodaeth am Achos dros Newid ewch yma: www.dweudeichdweudpowys.cymru/gwella-gydan-gilydd-gwanwyn25

**Rhai o'r pethau mae pobl wedi'u dweud wrthyn ni ydy:**



Mae pobl ym Mhowys yn teimlo'n falch o'u gwasanaethau iechyd lleol. Mae llawer o'r gwasanaethau hyn yn dibynnu ar wirfoddolwyr a gofalwyr di-dâl o'r gymuned.



Mae rhai pobl yn poeni am pa mor bell mae'n rhaid iddyn nhw deithio am ofal ysbyty, yn enwedig mewn argyfwng. Maen nhw hefyd yn poeni am drafnidiaeth, gwasanaethau ambiwlans, amseroedd aros hir y GIG, ac ystafelloedd brys gorlawn.



Mae gan bobl brofiadau gwahanol gyda gofal iechyd. Mae gan rai rhannau o Bowys well mynediad at ofal nag eraill. Dydy ansawdd y gofal ddim bob amser yr un fath ym mhobman.



Mae gan Bowys lawer o bobl hŷn, ac mae mwy yn byw gyda llawer o broblemau iechyd. Mae'r bobl sy'n gweithio ym maes gofal iechyd hefyd yn mynd yn hŷn.



Mae pobl yn poeni am fod yn unig.



Mae pobl yn poeni am nifer y staff ym Mhowys a sut mae hyn yn gallu cael ei gynyddu.



Mae pobl yn poeni nad oes digon o arian ar gyfer gwasanaethau iechyd.

# Beth rydyn ni wedi'i gyflawni

Rhai o'r pethau rydyn ni wedi'u cyflawni yn barod ydy:



- Gwella'r **Hwb Iechyd a Lles Integredig** yn Ysbyty Bro Ddyfi ym Machynlleth.




- Ein cynlluniau ar gyfer lleoliad iechyd a gofal newydd yn y Drenewydd.



- Offer pelydr-X modern newydd ar draws Powys.



- Gwell ffordd o gael mynediad at gymorth iechyd meddwl.



- Gwelliannau i **Ysbyty Coffa Sirol Llandrindod**.

# Ein nodau ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol oedolion

Rydyn ni eisiau:



- Helpu pobl i gadw’n iach
- Gwneud gwasanaethau iechyd lleol yn well



- Rydyn ni eisiau i wasanaethau weithio gyda’i gilydd yn well
- Rydyn ni eisiau gwella gofal cleifion mewnol



- Gwella gofal yn y gymuned
- Defnyddio technoleg i helpu pobl



- Gwneud y Bwrdd Iechyd yn lle gwych i weithio
- Gweithio’n dda gyda’r arian sydd gennym ni

# Syniadau ar gyfer gwasanaethau yn y dyfodol



Mae angen i Bowys wneud newidiadau i wasanaethau gofal iechyd. Dyma syniadau gwahanol ar gyfer gwella gofal iechyd:



1. **Dim newidiadau yn cael eu gwneud** – dydyn ni ddim yn credu bod hyn yn opsiwn. Mae angen gwneud newidiadau.




2. **Newidiadau bach:** Fe fyddai gofal yn aros yr un fath yn bennaf, ond fe allai rhai diweddariadau ddigwydd.




Efallai na fydd rhai gwasanaethau yn parhau i weithio fel maen nhw'n ei wneud nawr. Ac efallai y bydd angen rhai newidiadau brys. Fe fyddai gwelliannau yn araf, ac ni fyddai rhai adeiladau yn cael eu diweddaru.



3. **Canolfannau Rhagoriaeth**: Fe fyddai rhai gwasanaethau gofal iechyd, fel gwelyau ysbyty, yn cael eu grwpio mewn llai o leoedd ym Mhowys.



Fe allai hyn olygu gwell gofal a llai o deithiau y tu allan i Bowys am driniaeth.




Mae pobl yn fwy tebygol o gael diagnosis yn gynt. Mae diagnosis yn meddwl cael gwybod pa salwch sydd gan berson.



Mae pobl hefyd yn gallu treulio llai o amser yn yr ysbyty.



Ond, efallai y bydd angen i bobl deithio mwy o fewn Powys.




**4. Gwell Gofal Cartref:** Fe fyddai mwy o wasanaethau ar gael gartref.



Fe fyddai gwybodaeth a chefnogaeth yn haws i'w gael.



Ond efallai y bydd rhai triniaethau arbennig yn cael eu cynnig mewn llai o leoedd.



**5. Gofal Ysbyty y tu allan i Bowys**: Mwy o ffocws ar helpu pobl yn eu cartrefi eu hunain.




Ond fe fyddai'n rhaid i'r rhai sydd angen gofal ysbyty deithio y tu allan i'r sir.




**6. Ysbyty Mawr Newydd ym Mhowys**: Dydy hyn ddim yn bosibl oherwydd bod Powys yn wledig. Does dim digon o bobl i gefnogi ysbyty mawr.



Mae gan bob opsiwn bwyntiau da a drwg. Rhaid i newidiadau helpu pobl i gael y gofal maen nhw ei angen yn y ffordd orau bosibl.



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am y syniadau yma.

# Beth fydd yn digwydd nesaf



Ar ôl i ni gael adborth, mae angen i ni gynllunio beth sy'n digwydd nesaf.

Yna fe fydd angen i ni feddwl am:



- **Dylunio** - Sut fyddai gwasanaethau yn gallu edrych a lle dylen nhw fod.



- **Problemau** – Pa broblemau allwn ni eu hwynebu. Er enghraifft, ydy'r syniad yn gallu gweithio, a fydd yn para am amser hir? Yna rydyn ni'n gallu gwneud rhestr fer o opsiynau.



- **Asesu** – Edrych ar y rhestr fer a phenderfynu beth ddylai ddigwydd nesaf.



Rydyn ni eisiau gwasanaethau iechyd o ansawdd da sydd:

- yn ddiogel,
- yn cael eu rhoi ar yr adeg iawn,
- yn gweithio’n dda,
- wedi’u trefnu’n dda,
- yn deg,
- ac yn rhoi pobl yn gyntaf




Edrychwch nawr ar y cwestiynau ar **dudalennau 27 i 36**.



Fe fyddwn ni wedyn yn edrych ar beth mae pobl wedi ei ddweud a’u defnyddio i ddatblygu mwy o syniadau.

Fe fyddwn ni hefyd yn siarad â Llais am hyn. Mae Llais yn annibynnol. Maen nhw'n cefnogi pobl i gael dweud eu dweud am wasanaethau iechyd.



Os ydych chi eisisau cael y wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith, ymunwch â'n rhestr bostio yn: biap.gig.cymru/newyddion-cofrestru

# Cwestiynau



Rydyn ni eisisau gwybod beth rydych chi'n feddwl o'n syniadau.




Atebwch y cwestiynau canlynol a'u dychwelyd erbyn 27 Gorffennaf 2025.



Rydych chi'n gallu eu hanfon drwy e-bost at:
Powys.engagement@wales.nhs.uk



Neu postiwch nhw i:

Gwella gyda'n gilydd,
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys,
Tŷ Glasbury,
Ysbyty Bronllys,
Bronllys,
Powys
LD3 0LY

**1. Dywedwch wrthyn ni os ydych chi’n ymateb fel:**

(Rydych chi’n gallu ticio mwy nag 1 blwch os oes angen)



☐ Person sy’n byw ym Mhowys



☐ Ar ran sefydliad sy’n cefnogi pobl



☐ Fel rhywun sy’n gweithio i’r bwrdd iechyd




2. Ar dudalennau 20 i 23 rydyn ni'n siarad am ein syniadau ar gyfer gwella gofal iechyd.





**Beth ydych chi'n ei feddwl am Opsiwn 2 - Newidiadau bach?**



**Beth ydych chi'n ei feddwl am Opsiwn 3 - Canolfannau rhagoriaeth?**



**Beth ydych chi'n ei feddwl am Opsiwn 4 - Gwell gofal cartref?**



**Beth ydych chi'n ei feddwl am Opsiwn 5 - Gofal ysbyty y tu allan i Bowys?**



**Dywedwch wrthyn ni am unrhyw syniadau eraill ar gyfer opsiynau sydd gennych chi.**




**3. Rydyn ni wedi dweud y byddai angen i ni wneud rhestr fer o opsiynau ac yna asesu beth i'w wneud nesaf. I wneud hyn rydyn ni'n profi pob opsiwn i weld os ydy e'n gallu gweithio.**



Dyma'r rhestr o bethau rydyn ni'n edrych arnyn nhw wrth feddwl am opsiynau. Mae angen i ni feddwl am ddarparu gwasanaethau iechyd o ansawdd da sydd:

- yn ddiogel,
- yn cael eu rhoi ar yr adeg iawn,
- yn gweithio'n dda,
- wedi'u trefnu'n dda,
- yn deg,
- ac yn rhoi pobl yn gyntaf.




**Pa un o'r rhain ydych chi'n meddwl ydy'r lleiaf pwysig?**




**Pa un ydych chi'n meddwl ydy'r mwyaf pwysig?**



**4. Oes yna unrhyw faterion mae angen i ni feddwl amdanyn nhw i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn deg?**

Er enghraifft oherwydd oedran, rhyw, anabledd, cefndir, iechyd neu rywbeth arall.

# Cwestiynau amdanoch chi



Eich dewis chi ydy ateb y cwestiynau yma.



Mae’r wybodaeth rydyn ni’n ei chasglu yn ein helpu i weld ein bod yn cynnwys pob grŵp o bobl.




Fe fyddwn ni’n cadw eich gwybodaeth yn ddiogel ac yn breifat. Fyddwn ni ddim yn gofyn am eich enw na’ch cyfeiriad.



**5. Dywedwch wrthyn ni ym mha ardal o Bowys rydych chi’n byw ynddi:**



**6. Beth ydy eich rhyw? Er enghraifft, gwrywaidd, benywaidd, anneuaidd.**



**7. Ydy eich rhyw yr un fath ag adeg genedigaeth?**

- [ ] Ydy
- [ ] Nac ydy
- [ ] Mae’n well gen i beidio â dweud



**8. Beth ydy eich oed chi?**



**9. Oes gennych chi unrhyw gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol?**

- [ ] Oes
- [ ] Nac oes
- [ ] Mae'n well gen i beidio â dweud



**10. Ydych chi'n ofalwr di-dâl?**

- [ ] Ydw
- [ ] Nac ydw
- [ ] Mae'n well gen i beidio â dweud

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247